# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-05-07(p.4) Atodiad 1

### Dyddiad: 31 Ionawr 2007
### Amser: 9.00 - 12.30

### Teitl: Blaenoriaethau Polisi a Deddfwriaethol yr UE ar gyfer 2007

#### Diben y Papur

1. Mae’r papur hwn yn gwahodd yr Aelodau i nodi pa faterion deddfwriaethol a materion polisi’r Undeb Ewropeaidd yn 2007 sy’n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn ac y bydd o bosibl am gyfeirio atynt yn yr Adroddiad mae’n ei gyflwyno i’r Trydydd Cynulliad fel materion o bwys i’r Trydydd Cynulliad.

2. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu crynodeb o Raglen Waith a Deddfwriaeth 2007 y Comisiwn Ewropeaidd a goblygiadau honno i Lywodraeth y Cynulliad i’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

#### Cefndir

3. Cyhoeddwyd Rhaglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar 24 Hydref 2006. Mae hi’n rhestru’r holl eitemau strategol a’r blaenoriaethau y bydd y Comisiwn yn eu cynnig yn 2007. Gweler yma:

http://ec.europa.eu/atwork/programmes/docs/clwp2007_en.pdf

#### Blaenoriaethau a Awgrymir ar gyfer 2007

4. Cytunwyd ar y protocol ar gyfer delio gyda materion UE gan y Panel Cadeiryddion.

5. Mae Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau wedi archwilio’r rhaglen waith 2007 (yn cynnwys eitemau’r Comisiwn nad ydynt i gael blaenoriaeth) i ddod o hyd i eitemau sy’n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Rhestrir y rhain isod. Mae’r paragraffau mewn italeg yn ddarnau allan o Raglen Waith a Deddfwriaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn 2007. Dynodwyd yr Adroddiad Cymryd Stoc Realiti Cymdeithasol fel maes blaenoriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad (gweler Atodiad A).

#### A. Cymryd Stoc Realiti Cymdeithasol

Mae hwn yn adroddiad nad yw’n golygu gweithredu deddfwriaethol.

Ym mis Mehefin 2006, gofynnodd y Cyngor Ewropeaidd i'r Comisiwn gymryd stoc o'r sefyllfa gymdeithasol yn yr Undeb, gyda phwyslais penodol ar faterion mynediad a chyfleoedd, gan gydnabod bod deinameg cymhleth newid cymdeithasol yn ein cymdeithas angen cael ei ddeall yn well er mwyn cryfhau ymateb Ewrop i globaleiddio.

Bydd y cymryd stoc hwn yn astudio'r prif yrwyr sy'n gyfrifol am y trawsffurfio cymdeithasol mewn cymdeithasau Ewropeaidd. Bydd yn edrych sut y gellir asesu'r newidiadau hyn yn ?eincnodau lles. Bydd yn ceisio cychwyn trafodaeth am rai o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu tuag at les - megis cyfle economaidd, ansawdd bywyd gwaith, heriau'r gymdeithas sy'n heneiddio, demograffeg a phatrymau newydd bywyd teuluol, tlodi ac anghydraddoldeb, y rhwystrau i iechyd da a symudedd cymdeithasol, trosedd ac ymddygiad anghymdeithasol, amrywiaeth ac aml ddiwylliant. Ceisia'r arfer hwn o ymchwilio i realiti cymdeithasol Ewrop lunio consensws newydd ar yr heriau cymdeithasol sy'n wynebu Ewropeaid.

Bydd yr ymarfer cymryd stoc hwn yn cael effaith ar adolygiad tymor -canolig Agenda Cymdeithasol yr UE (2005-2010) sy'n nodi blaenoriaethau diwygiedig a gweithredu'r agenda yn y meysydd cyflogaeth a'r meysydd cymdeithasol hyd 2010.

## B. Papur Gwyrdd ar Sefydlu Ail Gam y System Lloches Ewropeaidd Gyffredin

Ceisia'r Papur Gwyrdd hwn ysgogi dadl a deialog gyda'r holl ddeiliaid diddordeb sy'n ymwneud mewn polis? lloches a fydd yn cael eu hystyried wrth baratoi offerynnau cyfreithiol yr ail gam sydd i'w cynnig gan y Comisiwn er mwyn cwblhau'r Polisi Lloches Ewropeaidd Cyffredin erbyn 2010.

## C. Cynnig ar gyfer Penderfyniad y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor i ddynodi

2010 yn Flwyddyn Ewropeaidd trechu Tlodi ac Allg?Cymdeithasol

Cyfyngedig y gall effaith cydweithrediad Ewropeaidd fod yn y frwydr yn erbyn tlodi ac allg? cymdeithasol, oherwydd ei ddiffyg treiddiad y tu hwnt i'r grwp cyfyngedig o lunwyr polisi cenedlaethol ac Ewropeaidd sy'n cael ei gynnwys yn uniongyrchol. Prif amcanion polisi'r Flwyddyn Ewropeaidd fydd: codi ymwybyddiaeth o broblemau tlodi ac allg?a'r rhwystrau a wynebir gan grwpiau difreintiedig ac ysgogi dadl ar ffyrdd o gynyddu cyfranogiad grwpiau sy'n byw mewn sefyllfaoedd o dlodi ac allg?mewn cymdeithas.

## 6. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno parhau i fonitro datblygiadau yn y meysydd canlynol y gwnaethant eu nodi fel meysydd pwysig yn 2006:

Hawliau'r Plentyn

Cyfathrebu ar Hawliau'r Plentyn - a fframwaith ar gyfer gwaith i weithredu hawliau'r plentyn yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Polisi Cyffuriau

Papur Gwyrdd ar gyffuriau a chymdeithas sifil - fframwaith ar gyfer gweithio gyda chymdeithas sifil i roi gweithredoedd ar waith yng Nghynllun Gweithredu ar Gyffuriau'r UE 2005-08. Y Cynllun Gweithredu ar Gyffuriau oedd un o’r eitemau blaenoriaeth a awgrymwyd ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn 2005.

Niwed a gysylltir ag Alcohol

Cyfathrebu gan y Comisiwn ar bolisi alcohol gan anelu at ostwng effeithiau ar iechyd ac effeithiau cymdeithasol defnyddio alcohol.

Gwasanaethau Post

Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb ar farchnad fewnol ar gyfer gwasanaethau post sy’n anelu at gynyddu ymhellach y syniad o greu marchnad fewnol post tuag at ddyddiad targed yn 2009 a allai effeithio ar ardaloedd gwledig yn benodol.

Camau Gweithredu gan y Pwyllgor

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi materion perthnasol rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer 2007 a phenderfynu pa faterion Ewropeaidd maent am roi blaenoriaeth iddynt.

8. Bydd unrhyw eitemau wedyn yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Trosglwyddo’r Pwyllgor i’r Trydydd Cynulliad.

Janice Gregory
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio